**CABINET**
**16 GORFFENNAF 2024**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we drwy gyfrwng Zoom, ddydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2024.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Roberts (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Chris Bithell, Mared Eastwood, Dave Healey, Christine Jones, Paul Johnson a Linda Thomas.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid); Rheolwr Cyllid Corfforaethol; Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygiad Sefydliadol; Rhaglen Gyfalaf ac Asedau, Rheolwr Cyllid Strategol; Uwch Reolwr, Gwasanaethau Integredig ac Oedolion Arweiniol; Uwch Reolwr, Cynllunio a Darpariaeth Lleoedd mewn Ysgolion a Hwylusydd Trosolwg a Chraffu

**AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:**
Y Cynghorwyr: Chrissy Gee, Richard Lloyd a Ryan McKeown

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorydd: Dave Hughes

## 22. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Bod y wasg a’r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff(au) 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).

## 23. ADOLYGIAD RHWYDWAITH YSGOLION SALTNEY/BRYCHDYN

Cyflwynodd y Cynghorydd Mared Eastwood yr adroddiad, a oedd yn rhoi manylion yr opsiynau rhwydweithiau ysgol ar gyfer ardal Saltney/Brychdyn a chanlyniadau'r broses ymgysylltu cynnar.

Dywedodd yr Uwch Reolwr, Cynllunio a Darpariaeth Lleoedd mewn Ysgolion, fod y cynigion wedi cael cefnogaeth eang gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant a bod trafodaethau helaeth wedi'u cynnal hefyd gydag Aelodau Lleol ynghylch yr adolygiad penodol hwn.

Wrth siarad am y cynigion, amlinellodd y Cynghorydd Dave Healey ei gefnogaeth a siaradodd am y cyfleoedd yn ymwneud â lleihau'r ôl troed carbon a’r datblygiad tuag at sero net.

**PENDERFYNWYD:**

a) Bod y Cabinet yn adolygu'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer moderneiddio ysgolion yn ardal Saltney a Brychdyn;

b) Bod y Cabinet yn cefnogi ac yn cymeradwyo'r opsiwn a ffefrir, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad; a

c) Bod y Cabinet yn cymeradwyo rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) gynnal ymgynghoriad ar gynigion statudol mewn perthynas â'r ddwy ysgol gynradd. Yn ogystal, yn rhoi awdurdod dirprwyedig i lunio amserlen ar gyfer y cynigion statudol hynny ar y cyd â'r Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg a Diwylliant.

## 24. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 1.49 pm)

……………………………………………
**Y Cadeirydd**